# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 4 CHWEFROR 2021

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Rheinallt Puw, Dewi Roberts, Elfed Powell Roberts a Mair Rowlands.

**Aelod Ex-officio:** Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Karen Vaughan Jones (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon), Dilwyn Elis Hughes (UCAC) a Dylan Huw Jones (NASUWT).

**Swyddogion yn bresennol:**
Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5a:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Ellen Rowlands (Rheolwr TRACC)
Bethan Griffith (Rheolwr Gwasanaethau Ategol Addysg)
Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor)
Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon)
Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd)
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5b:**
Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) GwE)
Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd, GwE)
Catrin Fflur Roberts (Ymgynghorydd Her – GwE)
Claire Rowlands (Arweinydd Craidd – Uwchradd / Ymgynghorydd Her – GwE)
Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd, GwE)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)
Roland Evans (Pennaeth Cynorthwyol Diwylliant, Economi a Chymuned)
Sian Pennant Jones (Rheolwr Twristiaeth Marchnata a Digwyddiadau)

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:-

- Y Cynghorydd Rheinallt Puw, oedd wedi cymryd drosodd sedd y Cynghorydd Elin Walker Jones ar y pwyllgor, a diolchwyd i'r Cynghorydd Elin Walker Jones am ei gwasanaeth
- Colette Owen, yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig
- Manon Williams, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Arfon
- Ruth Roe, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Meirionnydd
- Karen Vaughan Jones, yn cynrychioli rhieni / llywodraethwyr Dwyfor
- Dylan Huw Jones, yn cynrychioli NASUWT

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn dilyn anhwylder diweddar.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd ac Anest Gray Frazer *(*Eglwys yng Nghymru).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Selwyn Griffiths oherwydd bod ei ferch-yng-nghyfraith yn arwain yr Adran TRACC.
- Karen Vaughan Jones oherwydd ei bod yn rhiant i blentyn yn Ysgol Edern.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y canlynol fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dewi Roberts oherwydd bod ei ferch yn gweithio i Grŵp Llandrillo Menai.
- Karen Vaughan Jones oherwydd ei bod yn gweithio i Grŵp Llandrillo Menai.

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd, 2020 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ADRAN ADDYSG 2018-19 A 2019-20; YMATEB YR ADRAN ADDYSG A GWE I'R PANDEMIG COVID-19, Y GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD A DYSGU CYFUNOL

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion yr Adran Addysg a GwE i'r cyfarfod.

### (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2018-19, 2019-20, YMATEB YR ADRAN ADDYSG I'R PANDEMIG COVID-19 A BLAENORIAETHAU'R ADRAN

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn:-

- Manylu ar berfformiad blynyddoedd addysgu 2018-19 a 2019-20;
- Crynhoi ymateb yr Adran Addysg i'r Pandemig Covid-19;
- Amlinellu Blaenoriaethau'r Adran Addysg ar gyfer blwyddyn addysgu 2020-21.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan ddiolch i'r penaethiaid ac i staff yr ysgolion am eu holl waith caled a'u hymrwymiad yn ystod cyfnod y pandemig, fu'n bosib' gyda chefnogaeth yr Adran Addysg, GwE, y llywodraethwyr a'r rhieni. Ychwanegodd ei bod yn bwysig nodi, yng nghyd-destun lles, bod yna gydweithio agos wedi bod gydag Adran Plant y Cyngor yn ogystal, heb anghofio hefyd am y ffordd yr oedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc wedi dygymod â'r sefyllfa.

Ategodd y Pennaeth Addysg y sylwadau hyn drwy nodi bod y cyfnod wedi bod yn her fel na welwyd o'r blaen, ac y bu'n rhaid i'r Adran a'r ysgolion ymateb yn dra gwahanol i sicrhau parhad addysg i'r plant, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i les y dysgwyr a'r staff yn yr ysgolion. Nododd ymhellach:-

- Bod llythyr Prif Arolygydd Estyn at Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd (a anfonwyd ar wahân at aelodau'r pwyllgor) yn amlygu barn gadarnhaol Estyn ynglŷn ag ymateb yr Adran wrth iddynt gefnogi ysgolion ac unedau cyfeirio yn ystod y cyfnod clo cyntaf, a hefyd o fis Medi ymlaen. Ychwanegodd fod ymateb yr ysgolion, gyda chefnogaeth yr Adran a GwE, yn amlwg yn y llythyr, a diolchodd o waelod calon i bawb am y ffordd y bu iddynt ymdopi â'r newidiadau er mwyn parhau gydag addysg a lles plant.
- Bod y cyfnod Covid wedi ceisio gosod cyfyngiadau ar addysg, ond bod y plant a'r bobl ifanc a'u gwydnwch a'u brwdfrydedd tuag at barhad addysg wedi profi nad yw addysg yn adnabod unrhyw ffiniau.
- Bod y cyfnod hefyd wedi gweld cryfhau pellach o ran y cydweithio rhanbarthol sydd wedi digwydd mewn sawl maes ar draws chwe awdurdod y Gogledd, a gyda GwE yn ogystal.
- Y ceisiwyd ar bob achlysur i symleiddio arweiniad Llywodraeth Cymru i'r ysgolion fel ei fod yn briodol yng nghyd-destun asesiadau risg, mesurau lliniaru yn sgil Covid, ayb.
- Y cynhaliwyd cyfarfodydd cyson gyda'r undebau hefyd, yn lleol ac yn rhanbarthol, i'w diweddaru ar ein cynlluniau, a chafwyd cydsyniad a chefnogaeth yr undebau i'r gwaith o gefnogi, nid yn unig y dysgwyr, ond y gweithlu addysg hefyd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Ategwyd diolchiadau'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth Addysg i benaethiaid, staff a llywodraethwyr yr ysgolion am ymateb mor arwrol i'r her enfawr oedd yn eu hwynebu.
- Croesawyd y ffaith bod cynifer o chromebooks wedi'u dosbarthu i deuluoedd oedd heb fynediad at dechnoleg.
- Nodwyd ei bod yn galonogol gweld faint o waith oedd wedi digwydd, a'i bod yn amlwg o lythyr Estyn a chyflwyniad ac adroddiad y Pennaeth Addysg bod ein gwaith partneriaethol yn cael ei gydnabod fel cryfder.
- Nodwyd bod llythyr Estyn hefyd yn amlygu bod gwaith Gwynedd yn flaengar drwy Gymru i gyd, a bod hyn yn bwynt pwysig i'w gyfleu i'r athrawon.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- O ran yr ymgysylltu gydag addysg o bell, roedd yr ysgolion yn cadw golwg i ba raddau roedd y plant yn ymwneud â'r profiad ysgol, ac roedd trefniadau gwydn a thrylwyr yn eu lle i sicrhau bod ysgolion yn cynnig arweiniad ac anogaeth reolaidd i blant sy'n cael anawsterau, a'u teuluoedd. Hefyd, bu'r swyddogion lles yn cefnogi'r ysgolion drwy wneud ymholiadau stepen drws dros y cyfnod clo cyntaf, mewn ymgais i gynyddu'r ymgysylltiad gyda theuluoedd. Yn ystod y cyfnod clo presennol, roedd llai o gyfeiriadau yn dod i'r swyddogion lles, gan fod yr ysgolion yn gallu gweld y plant yn fyw ar y sgrin, ond roedd yr achosion oedd yn cael eu cyfeirio atynt yn rhai fyddai angen mwy o sylw.
- Y byddem yn debygol o weld rhai plant ychwanegol yn dod i'r categori ADY ar y lefelau isaf o ran angen. Byddai'r grant Carlam yn targedu'r plant yma oedd wedi disgyn ar ei hôl hi, ac angen yr hwb ychwanegol oherwydd y cyfnod.
- O ran ymyrraeth gynnar, ceisiwyd parhau drwy gydol y cyfnod gyda'r trefniadau o ran y cyfeirio, y cyswllt gyda'r ysgolion ac adnabod y plant mor fuan â phosib'. Gan hynny, ni fu unrhyw oedi o ran unrhyw drefn asesu statudol, ayb. Gwelwyd yn ystod tymor yr Hydref nad oedd y naid mewn cyfeiriadau mor sylweddol â'r disgwyl, a chredid bod hynny oherwydd y cyswllt gyda'r ysgolion yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf a'r gwahoddiad i blant bregus fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod clo.
- Bod yr Adran wedi derbyn comisiwn i gydlynu gwaith trawsadrannol ac amlasiantaethol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â gagendor lles a chyrhaeddiad ein holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant ag anghenion ADY a phlant sy'n agored i becynnau cynhwysiad, fel bod yr ymgysylltu yn briodol a chywir, a'r gorau y gall fod. Adnabuwyd tair ffrwd gwaith yn y maes yma, ac roedd hynny'n cynnwys dwyn ynghyd yr holl waith oedd yn digwydd ym meysydd addysg, yr economi, plant, iechyd cyhoeddus a GwE, er mwyn gweld sut y gellid lleihau'r gagendor ymhellach. Y ffrydiau a adnabuwyd oedd y ffrydiau blynyddoedd cynnar, (gan fod tystiolaeth yn dangos po fwyaf yw cyfraniad yr Adran a'r ysgolion i'r plant ieuengaf, gorau'n y byd maent yn gallu manteisio ar eu profiadau addysgol wrth ddilyn eu gyrfa drwy'r ysgol), a'r maes ôl-16, (er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod yma'n llesteirio eu gallu i symud ymlaen i'w camau nesaf yn eu gyrfa). Comisiynwyd gwaith i edrych ar waelodlin cyrhaeddiad er mwyn sicrhau data clir yn dangos beth yw'r sefyllfa, a thros yr wythnosau nesaf byddai'r Adran yn cydlynu'r gwaith o roi rhaglen waith gref yn ei lle i ymateb, hyd yn oed yn fwy, i'r anghenion yma, fel y gellid adrodd i'r Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl ar y gwaith y gallai'r Cyngor a'i bartneriaid ei wneud i gadw llygaid ar y gagendor, a'i leihau gymaint â phosib'.
- Bod dyletswydd ar y Cyngor, fel cyflogwr cyfrifol, i gydnabod bod y cyfnod wedi creu straen mawr ar y gweithlu, ac i gyfarch hynny. Roedd gwaith rhanbarthol wedi digwydd i gynnig sesiynau lles ar gyfer y staff, ac ers cychwyn y cyfnod clo, bu'r Adran Addysg, gyda chymorth y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, yn rhagweithiol yn cynnig sesiynau lles i'r holl staff. Roedd systemau yn eu lle i alluogi i staff adrodd pryderon, ac roedd y gweithlu wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r sesiynau lles a ddarparwyd ar eu cyfer. Gan y bu'n rhaid i staff weithio ar rota yn ystod gwyliau'r Pasg y llynedd er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth ofal, trefnwyd iddynt gael pythefnos o wyliau o fewn ffenestr bedair wythnos. Estynnwyd gwahoddiad yn unigol i bob athro llanw gysylltu gyda'r Adran os oeddent wedi colli cyflogaeth oherwydd y sefyllfa, ac roedd gan yr Adran gynlluniau a gweithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn digolledu'r bobl yma am y gwaith y byddent yn debygol o fod wedi'i gael mewn sefyllfa fwy arferol.

- O ran y sefyllfa TG, rhoddwyd system mewn lle ar gyfer brocera dyfeisiadau o ysgolion yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd gan yr Adran stoc o chromebooks yn y sector gynradd, a llai ohonynt yn yr uwchradd. Yn y don gyntaf, rhannwyd ychydig dros 1,200 o ddyfeisiadau ar gyfer dysgwyr, ac roedd hynny'n pontio'r cynradd a'r uwchradd. Roedd mwy o ddyfeisiadau pen desg yn y sector uwchradd, a mwy o liniaduron yn y sector cynradd, a bu'r cynradd yn benthyg i'r uwchradd, er mwyn sicrhau bod dyfeisiadau ar gael i bawb oedd eu hangen. Yn ystod y cyfnod clo diweddaraf, roedd mwy o ffocws ar addysg (o gymharu â lles yn ystod y cyfnod clo cyntaf) ac roedd y don yma wedi bod yn ychydig haws i'r Adran. Yn ystod tymor yr Haf, fel rhan o'r Strategaeth Ddigidol, dosbarthwyd 2,700 o chromebooks newydd, oedd yn darparu digon o stoc i'r cynradd ei rannu allan, gyda mwy o stoc ar gael wedyn i'w rannu gyda'r uwchradd maes o law. Roedd y gwaith brocera'n parhau, a chynyddwyd y niferoedd dros 300-400 yn ystod y mis diwethaf.
- Bod yr athrawon angen y dyfeisiadau a'r rhwydweithiau gorau posib' i fedru dysgu o bell, ond nid oedd hynny'n gweithio bob tro. Dyma pam bod angen strategaeth ddysgu ddigidol. Roedd yn hysbys cyn y pandemig bod yna wendidau, ond roedd y sefyllfa dros y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu hynny fwy. Roedd yr Adran yn flaengar wedi rhoi'r strategaeth mewn lle, ond yn rhwystredig bod Cofid wedi dod, ac wedi arafu argaeledd dyfeisiadau.
- Yn ogystal â'r chromebooks a ddosbarthwyd eisoes, archebwyd dros 3,500 o liniaduron, un i bob athro yn y sir, ac un i bob disgybl Blwyddyn 10 ac 11 yn y sir. 'Roedd 2,500 o chromebooks eraill ar y ffordd hefyd, ynghyd â dros 1,000 o ipads.
- O ran y gwahanol blatfformau, roedd Hwb yn ganolog i'r strategaeth. Roedd angen i'r athrawon gael yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r platfform oedd yn gweddu orau i'r plant, yn eu tyb hwy, yn ôl oedran a'u gallu a'u sgiliau TG. Roedd Hwb yn caniatáu iddynt wneud hynny, ond nid oedd yn cyfyngu athrawon i fod yn defnyddio un meddalwedd dros y llall. Roedd Hwb yn esblygu'n barhaus hefyd. Gan hynny, ceisid annog yr ysgolion i ddefnyddio'r meddalwedd oedd ar gael yn Hwb, a pheidio dargyfeirio oddi ar hynny.
- Bod yr adroddiad cenedlaethol a ddarparwyd gan Estyn yn nodi bod y partneriaethau ar draws y Gogledd yn gryf iawn. Nid oedd yn briodol i gymharu gyda gweddill Cymru, ond roedd digon yn yr adroddiad oedd yn peintio darlun eithaf clir.

Ar ddiwedd y cwestiynu, nododd y Pennaeth Addysg ei ddymuniad i dynnu sylw at yr adran ynglŷn â'r Gymraeg yn yr adroddiad. Nododd:-

- Bod y cameo o Adroddiad Thematig Estyn ar waith yr Awdurdod Lleol i gefnogi hwyrddyfodiaid yn amlygu sut y llwyddodd yr Awdurdod i gydweithio gyda GwE a staff y canolfannau iaith i ddarparu'n wahanol yn ystod y cyfnod hwn, gan gyrraedd mwy o blant.
- Bod cwestiynau wedi codi'n ddiweddar ynghylch i ba raddau y gall rhieni di-gymraeg gefnogi eu plant. Roedd Swyddog Addysg Ardal Arfon a Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd wedi bod mewn cyfarfod rhanbarthol â Swyddogion GwE yn ddiweddar lle cododd hyn, ac o ganlyniad, bu penderfyniad i gronni'r arferion gorau ar draws siroedd y Gogledd er mwyn rhoi pecyn at ei gilydd i gefnogi gofalwyr di-gymraeg i fod yn gwneud eu gorau i gefnogi addysg eu plant.

**(B) RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID-19**

Cyflwynwyd – adroddiad Arweinwyr Craidd GwE yn manylu ar sut roedd y consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol, wedi datblygu ac addasu er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod y Pandemig Covid-19.

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad sleidiau manwl gan swyddogion GwE. Manylwyd ar:-

- Gynnwys y prif adroddiad
- Y gwaith i gefnogi'r Gymraeg
- Yr adnoddau ar Ganolfan Cefnogaeth GwE
- Adnoddau dysgu ac addysgu o bell
- Dysgu digidol
- Dysgu cyfunol
- Dysgu Carlam
- Llyfrgell adnoddau ysgol i ysgol
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol
- Yr hyn ddigwyddodd o ran y sectorau cynradd, uwchradd ac arbennig yn lleol
- Y camau nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am yr adroddiad cynhwysfawr, oedd yn cyflwyno llawer o wybodaeth am waith GwE i gefnogi'r ysgolion oedd wedi gorfod addasu'n llwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Nodwyd bod yr adroddiad wedi rhoi darlun clir i'r aelodau o waith diweddar GwE o ran cefnogi ysgolion, ac argymhellwyd y dylid pasio'r adroddiad ymlaen i holl aelodau'r Cyngor.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Y derbynnid bod yna agweddau cefnogi a monitro i waith GwE. Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r penaethiaid o ran eu darpariaeth, ond yn amlwg roedd wedi bod yn fwy o her i arfarnu ansawdd yr hyn oedd wedi bod yn digwydd, oherwydd yr amgylchiadau. Byddai'r rhaglen waith ar gyfer y ddau dymor nesaf yn rhoi sylw i hynny, a gobeithid gwneud hynny ar y cyd â'r ysgolion, fel y gellid asesu ansawdd y ddarpariaeth a chynnig cefnogaeth sydd wedi'i deilwrio ar eu cyfer. Roedd hyn wedi'i gytuno ar y cyd rhwng y chwe chyfarwyddwr yn y Gogledd o ran y ffordd ymlaen.
- Y cytunid bod y sefyllfa'n hynod rwystredig i rai rheini, yn enwedig os nad ydynt yn y byd addysg. Gwelwyd enghreifftiau arbennig o effeithiol o ganllawiau i rieni gan ysgolion, ac roedd GwE hefyd wedi ceisio cefnogi hynny drwy lunio darpariaeth a chanllawiau cyffredinol i'r ysgolion fedru eu defnyddio a'u haddasu yn ôl eu dymuniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 6. YMGYSYLLTU ANFFURFIOL ADDYSG ÔL-16

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y broses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliaid ar Addysg Ôl-16 yn Arfon.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy egluro mai ei fwriad oedd bod y drafodaeth yn cael ei hagor yn gyhoeddus. Os bu cyhuddiad yn y gorffennol ynglŷn â phenderfyniadau wedi'u gwneud ymlaen llaw, roedd yn awyddus bod y Cyngor yn mynd allan gyda llechen lan, a bod y cyfarfodydd yn dryloyw, agored, gwrthrychol ac efallai'n arloesol hefyd. Roedd yn croesawu'r ffaith bod y drafodaeth yn cychwyn yn Arfon, ac roedd yn croesawu'r syniadau oedd yn dod i law. Roedd rhai ysgolion wedi ymuno mwy yn y drafodaeth nag eraill, ac roedd cyfrifoldeb i sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan. Cyfeiriodd yn benodol at fewnbwn aeddfed disgyblion Ysgol Tryfan ac Ysgol Brynrefail i un cyfarfod, oedd wedi gadael cryn argraff arno. Ychwanegodd y bu'r ddarpariaeth yn fratiog yn hanesyddol, a bod cyfle nawr i geisio cael cysondeb ar draws y sir, a sicrhau'r ddarpariaeth orau er lles y disgyblion.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Nodwyd bod pryder y gallai unrhyw newid wanhau'r Gymraeg, a bod awydd i wella dysgu drwy Gymraeg oherwydd y diffygion presennol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Mai cais y Cabinet oedd i'r gwasanaeth edrych ar y ddarpariaeth yn Arfon yn y lle cyntaf. Pwysleisiwyd bod dymuniad i adeiladu ar y cryfderau amlwg oedd yn y gyfundrefn ôl-16, a bod ffocws y drafodaeth ar hyn o bryd ar ysgolion Arfon. Roedd y cyfarfodydd anffurfiol wedi bod yn ddiddorol iawn, a'r trafodaethau wedi bod yn aeddfed ar lawer o opsiynau, yn amrywio o fân newidiadau i'r gyfundrefn bresennol i ganolfan chweched dosbarth ar gyfer yr holl ddisgyblion. Pwysleisiwyd nad oedd gan yr Adran gynlluniau pendant ar hyn o bryd, a bod angen dadansoddi'r ymatebion cyn adrodd i'r Cabinet. Ychwanegwyd bod y dystiolaeth yn dangos yn glir nad yw'r safonau yn gyson ar draws ysgolion Arfon. Roedd yna wahaniaethau yn bodoli o fewn ysgolion unigol hefyd, e.e. ambell bwnc neu faes ddim yn perfformio cystal mewn ambell ysgol, ac roedd dymuniad i gryfhau hynny. Yn fwriadol, ar gais y Cabinet, ni chynigwyd opsiynau, gan mai'r nod oedd gweld beth oedd y cyhoedd yn feddwl oedd yr opsiynau gorau. Derbyniwyd rhai cynigion da, ac roedd yr Adran wrthi'n prosesu'r ymatebion cyn mynd yn ôl i'r Cabinet gyda nifer o syniadau oedd yn haeddu trafodaeth bellach.
- Nodwyd mai ansawdd yr addysg oedd y brif flaenoriaeth a amlygwyd yn y sesiynau, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod y profiad hwnnw ar gael i bob dysgwr. Themâu eraill amlwg oedd y Gymraeg a darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog. Hefyd, yn sgil y cyfnod yma, bu cryn drafod ynghylch technoleg. Mynegwyd y farn gyffredinol mai dysgu wyneb yn wyneb yw'r profiad addysgol gorau y gall unrhyw ddysgwr ei gael, ond bod yr elfen dysgu digidol yn gallu cefnogi'r cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw.
- Er bod gennym gyfundrefn gadarn o ran y Gymraeg yng Ngwynedd, bod canfyddiad gan garfan o ddysgwyr a'u rhieni bod y Gymraeg yn anfanteisiol fel cyfrwng i ddysgu pynciau STEM, er nad oedd tystiolaeth i gefnogi hynny. Os rhywbeth, roedd y gwirionedd i'r gwrthwyneb, ac roedd yr Adran yn awyddus i roi'r Gymraeg yn ganolog fel egwyddor drwy gydol y trafodaethau. Cydnabyddid bod yna anghysondebau yng Ngwynedd o ran cyrsiau academaidd a chyrsiau galwedigaethol partneriaethol sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd, a chredid bod yna ddiffygion o ran y Gymraeg hefyd, ond byddai'r adolygiad yn sicrhau bod gennym ddarpariaeth briodol ar gyfer ein dysgwyr yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu Saesneg. Ychwanegwyd bod yr Adran yn awyddus iawn i hyrwyddo safle

amlwg y Gymraeg yn yr ôl-16, ynghyd ag ansawdd a chysondeb ansawdd yr addysg a'r profiadau roedd y plant yn gael.

- Y cydnabyddid bod amheuaeth a oedd yr Adran yn ymgysylltu gyda llechen lan, ond pwysleisiwyd mai bwriad yr adolygiad yn ei gyfanrwydd oedd edrych ar y ddarpariaeth drwy Wynedd gyfan, er mwyn dysgu gwersi o'r hyn oedd wedi digwydd ym Meirionnydd a Dwyfor, a chryfhau'r ddarpariaeth. Gwnaed hyn ar gais y Cabinet oherwydd bod grym yr Awdurdod Addysg a'r Cyngor yn benodol dros yr ysgolion hynny lle'r oedd y chweched dosbarth wedi ei leoli, sef yn Arfon, a'r bwriad oedd edrych i gryfhau'r ddarpariaeth honno yn gyntaf. Yn sgil yr adolygiad, bwriedid edrych ar unrhyw wersi a ddysgwyd oherwydd, er nad oedd yr Awdurdod yn uniongyrchol gyfrifol am y ddarpariaeth drydyddol, roedd cyfrifoldeb moesol arnom i gyflawni hyd eithaf ein gallu ar gyfer dysgwyr Gwynedd i gyd. Roedd y Llywodraeth wedi awdurdodi gwario £18 miliwn yn y maes, gyda rhan sylweddol o'r arian yma yn dod yn fuddsoddiad gan Gyngor Gwynedd drwy gynllun rheoli asedau. Roedd yn bwysig bod yr arian yma'n cael ei wario, a waeth beth fyddai'r datrysiad, ystyrid bod modd gwneud defnydd effeithiol o'r arian i gryfhau'r ddarpariaeth.
- Ei bod yn anodd dweud yn bendant beth fydd amserlen y broses hyd oni cheir cadarnhad ynglŷn ag Etholiad Llywodraeth Cymru ym mis Mai. Pe na chynhelid etholiad, o bosib' y gellid adrodd i'r Cabinet tua mis Ebrill gyda chanfyddiadau'r broses ymgysylltu, ond fel arall, byddai'r amserlen yn llithro oherwydd y cyfnod cyn etholiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 7. DATBLYGU EGWYDDORION TWRISTIAETH GYNALIADWY A THRETH TWRISTIAETH

Croesawyd Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn gwahodd y pwyllgor i graffu'r camau a gymerwyd hyd yma i lunio'r egwyddorion economi ymweld drafft a'r camau y bwriedid eu cymryd i lunio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd 2030.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy nodi bod yr economi ymweld yn rhan bwysig o economi'r sir, gyda nifer fawr yn cael eu cyflogi yn y diwydiant yn uniongyrchol, ac yn anuniongyrchol. Fodd bynnag, wrth i Covid daro'r diwydiant, daeth yn amlwg bod rhaid i'r Cyngor ail-ymweld â'i egwyddorion yn y maes. Roedd newid sylweddol wedi bod yn y ffordd rydym yn edrych ar yr economi ymweld. Yn flaenorol, roedd pawb yn meddwl am yr ymwelydd yn ganolog i unrhyw economi ymweld, ond bellach, daethpwyd i'r farn mai trigolion Gwynedd ddylai fod yn ganolog i unrhyw egwyddorion o gwmpas yr economi ymweld, a rhoddwyd lle blaenllaw i hyn yn natblygiad yr egwyddorion. Os oedd pobl Gwynedd yn gweld y budd a bod y diwydiant ymweld yn dderbyniol ganddynt, roedd hynny'n bwydo drwodd i brofiad yr ymwelwyr. Nodwyd y trefnwyd gweithdy ar gyfer holl gynghorwyr Gwynedd ar 2 Mawrth, 2021 er mwyn cyflwyno'r egwyddorion drafft, gyda bwriad o'u cyflwyno i'r Cabinet cyn diwedd Mawrth i'w mabwysiadu ar ffurf drafft i ymgynghori arnynt gyda phobl Gwynedd.

Cytunodd yr Arweinydd fod datblygu'r egwyddorion hyn yn newid cyfeiriad sylweddol iawn i'r Cyngor. Gwelwyd llynedd beth oedd twristiaeth 'anghynaliadwy', a dyma'r math o dwristiaeth oedd yn niweidio'r amgylchedd, ac yn cael drwg-effaith ar y cymunedau. 'Roedd datgan ein bod yn gosod cyfeiriad newydd yn bwysig iawn. Credid bod y diwydiant hefyd yn gweld yr angen i fod yn adlewyrchu ein cymdeithas yn llawer gwell, ac roedd yr egwyddorion yn sylfaen i'r math o gefnogaeth a chyfeiriad roedd y Cyngor yn ei roi i'r

diwydiant. Roedd cyfarfodydd gyda'r diwydiant wedi dangos bod twristiaeth yn ddiwydiant pwysig iawn i'n pobl ni, er bod canfyddiad ei fod ym mherchnogaeth eraill. Roedd y pandemig wedi dangos bod ardaloedd gwledig fel Gwynedd bron iawn yn llwyr ddibynnol ar dwristiaeth bellach, ac roedd hynny'n ysgogiad i barhau â'r gwaith o geisio creu economi llawer mwy amrywiol. Er bod £1.3 biliwn yn dod i Wynedd drwy'r diwydiant, roedd incwm aelwydydd Gwynedd ymhlith yr isaf yn y wlad, ac roedd angen datblygu diwydiant lletygarwch sy'n rhoi gyrfa dda, a chyflogaeth dda. Roedd enghreifftiau o hynny'n bodoli eisoes, ac roedd angen gweithio i wella ansawdd y diwydiant yng Nghymru.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at lythyr ymateb y Parc Cenedlaethol i benderfyniad y Cyngor i ymchwilio ar frys i'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr sy'n ymweld â rhannau o'r parc. Nododd fod y llythyr yn datgan y byddai'n llwyr amhosib' codi tâl am fynd i ben yr Wyddfa ar sawl cyfrif, ond nad oedd hynny'n ein rhwystro rhag edrych ar ffyrdd eraill o greu incwm. Roedd cynllun y Parc i greu system drafnidiaeth yn ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen yn enghraifft o hynny, ac roedd cyfle yma, nid yn unig i greu amgylchedd gwell, ond hefyd i greu system trafnidiaeth gyhoeddus carbon isel, fyddai'n gwasanaethu pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Mawr obeithid, yn dilyn y gweithdy aelodau, y byddai modd cynnal cynhadledd agored i gael trafodaeth ar y materion hyn oll, ac i uchafu rhai o'r cwestiynau oedd yn codi.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod yr is-egwyddor '*Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd'* yn awgrymu cadw pethau fel y maent, yn hytrach na'u datblygu a'u gwella.
- Bod angen addysgu ymwelwyr i barchu ein cymunedau, a diolchwyd i'r swyddogion am eu hymdrechion yn y maes yma.
- Bod posib' gor-ymateb i'r sefyllfa, gan y bydd niferoedd ymwelwyr i'r ardal yn gostwng eto unwaith y bydd y pandemig drosodd.
- Nad oedd pawb yn edrych ymlaen at weld twristiaeth yn dychwelyd i'r ardal ar ôl y cyfnod clo, ac wrth yrru'r neges allan yn gofyn i bobl barchu'r ardal, dylid hefyd geisio newid meddylfryd y bobl leol fel eu bod yn deall bod economi Gwynedd yn ddibynnol ar dwristiaeth.
- Bod twristiaeth yn plethu drwy bob cymuned yng Ngwynedd, ac nid yn y prif gyrchfannau gwyliau yn unig.
- Y croesawid y syniad o edrych ar enghreifftiau o dwristiaeth gynaliadwy lwyddiannus mewn gwledydd eraill, a'i addasu ar gyfer cymunedau Gwynedd.
- Bod angen bod yn arloesol er mwyn elwa o dwristiaeth.
- Bod angen darganfod balans sy'n deg i bawb, ond sy'n rhoi pobl Gwynedd yn gyntaf.
- Bod angen deall beth a olygir gan dwristiaeth 'anghynaliadwy', a bod peryg' i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ddifetha ein cymunedau.
- Bod angen sicrhau gwaith sy'n talu'n dda yn y maes twristiaeth yng Ngwynedd, fel bod modd i bobl leol aros yn eu cymunedau.
- Y pryderid y bydd rhannau o'r sir yn wynebu mwy o drafferthion yr haf yma wrth i bobl sy'n arfer mynd dramor benderfynu dod yma ar wyliau.
- Bod angen gorfodi perchnogion cartrefi modur i aros mewn meysydd pwrpasol, yn hytrach na'u bod yn parcio ar ochr y lonydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Y byddai'r egwyddorion, o'u mabwysiadu, yn egwyddorion i'r Cyngor cyfan. Roedd niferoedd sylweddol o ymwelwyr wedi ymweld â rhannau o Wynedd yr haf diwethaf,

ac roedd cydweithio da iawn yn digwydd ar draws y Cyngor cyfan i baratoi ar gyfer yr hyn allai ddigwydd eto yr haf yma.

- Y cytunid bod y defnydd o'r gair '*Cynnal'* yn yr is-egwyddor '*Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd*' yn awgrymu bod pethau'n berffaith fel y maent, a bod angen rhoi ystyriaeth i'r geiriad yn yr adroddiad fydd yn mynd gerbron y Cabinet. Nodwyd hefyd y byddai cyfle i wneud y math hwn o sylw yn y gweithdy aelodau, ac yn ystod yr ymgynghoriad maes o law.
- Y bwriedid neilltuo ychydig amser ar gychwyn y gweithdy aelodau i adnabod y prif faterion a gododd llynedd ac i esbonio sut roedd yr Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Economi a Chymuned, ynghyd â gwahanol asiantaethau yn bwriadu ymateb i hynny ar gyfer y tymor i ddod o safbwynt materion megis parcio anghyfreithlon, cartrefi modur, ysbwriel, rheolaeth traethau, rheolaeth cyrchfannau yn gyffredinol, a sut i hwyluso mynediad a llif pobl o fewn cyrchfannau, ayb. Nodwyd ymhellach y cyflawnwyd gwaith yr haf diwethaf mewn ugain o gyrchfannau o ran sicrhau trefniadau ymbellhau, arwyddo a sicrhau bod trigolion lleol ac ymwelwyr yn parchu'r rheoliadau, a bwriedid adeiladu ar y gwaith hwnnw ar gyfer y tymor i ddod. Hefyd, roedd gwaith rhyngadrannol yn mynd rhagddo o ran cynllunio ymlaen, a chyflwynwyd bidiau i'r Llywodraeth am arian ychwanegol i gefnogi'r gwaith. Bwriedid gyrru negeseuon mwyniant diogel o'r ardal ar gyfer y tymor i ddod ac annog ymddygiad cyfrifol. Eglurwyd na chyflawnwyd unrhyw waith hyrwyddo'r ardal y llynedd, ond yn hytrach, canolbwyntiwyd ar gydweithio gyda'r Heddlu, y Parc Cenedlaethol a'r Bwrdd Iechyd o ran y negeseuon ymddygiad cyfrifol a chyrchfan cyfrifol. Bwriedid adeiladu ar hynny ar gyfer y tymor i ddod, gan wneud cryn dipyn o newidiadau i'r wefan Eryri Mynyddoedd a Môr a'i ddefnyddio fel platfform i rannu gwybodaeth. 'Roedd gwaith pellach ar droed hefyd gan y Gwasanaeth Morwrol o ran negeseuon ymddygiad cyfrifol ar hyn yr arfordir, yn sgil sawl achos o drafferthion mewn rhai lleoliadau'r haf diwethaf. Roedd gwaith hefyd o rannu gwybodaeth yn digwydd gyda'r sector breifat i amlygu materion o ran y rheoliadau a chymorthdaliadau a rhannu ymarfer da.
- Nad oedd y Cyngor hwn yn cyfrannu at Dwristiaeth Gogledd Cymru. Roedd yn cael ei ariannu gan ei aelodau, ond roedd nifer fawr o'r aelodau hynny yn dod o Wynedd.
- Y cytunid bod rhaid dod â'r cymunedau gyda ni, ac fel enghraifft o hyn, cyfeiriwyd at Dolan, sef prosiect ar y cyd rhwng Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog, oedd yn edrych ar y budd i'r gymuned o dwristiaeth. Hefyd, ystyrid bod datblygu'r berthynas rhwng rhai o'r prif atyniadau a'u cymunedau lleol yn ffordd o gael y cymunedau i weld y buddion posibl. Roedd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i'r posibilrwydd o lunio cynllun llysgenhadon cymunedol a busnes, fel ffordd o wneud i bobl Gwynedd ddeall beth sy'n eithriadol am eu hardal, fel bod modd iddynt gyfleu'r arbenigeddau yma i ymwelwyr, yn ogystal â'u deall eu hunain.
- Bod yna gydnabyddiaeth nad oedd y model STEAM (*Scarborough Tourism Economic Assessment Model*) yn berffaith, ond dyma'r model oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth ar gyfer rhoi dyraniad grant ychwanegol i'r Cyngor bob blwyddyn ar sail poblogaeth ddyrchafedig yn ystod yr haf. Roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan sawl cyngor ym Mhrydain, ac yn rhyngwladol, ac er ei feiau, roedd yn cynnig elfen o gysondeb gan fod cymaint yn ei ddefnyddio. Roedd y model yn edrych ar y niferoedd ymweld a'r tueddiadau gwerth, ond efallai bod angen edrych ar fesurydd gwahanol, ac roedd cydnabyddiaeth bod angen adolygu sut roedd hyn yn gweithio. Ychwanegwyd bod y rhagolygon cychwynnol ar gyfer 2019/20 yn dangos gostyngiad o 50%-60% o ran buddion economaidd a'r niferoedd ymweld, er yn amlwg roedd y niferoedd oedd wedi ymweld â'r ardal dros fisoedd yr haf yn uchel, gyda llai yn mynd dramor oherwydd y pandemig. O ran symud ymlaen, roedd yn bwysig ehangu'r gyfres o fesurau i gynnwys mesurau perfformiad

ychwanegol fyddai o gymorth i wireddu'r weledigaeth o roi trigolion Gwynedd yn ganolog.

- Bod y broses o ddatblygu'r egwyddorion yn cydnabod y ffaith bod twristiaeth yn treiddio i bob rhan o fywyd yng Ngwynedd, a gobeithid hefyd ymgorffori'r egwyddorion yn y fframwaith adfywio fyddai'n cael ei datblygu ar gyfer Gwynedd. Nodwyd ymhellach, o safbwynt ymarfer da ar draws y byd, bod yr Adran ar fin comisiynu Dr Terry Stevens, Arbenigwr mewn Cyrchfannau a Thwristiaeth Gynaliadwy i gynghori a ydyw'r egwyddorion yn llwyr gyd-fynd â thwristiaeth gynaliadwy a pha fesuryddion y gellid eu datblygu i fesur llwyddiant yr egwyddorion hynny i'r dyfodol. Byddai hefyd yn cynghori'r Adran ar arfer da mewn llefydd eraill, y tueddiadau ymweld dros y 10 mlynedd nesaf, a sut i gyfathrebu â'r marchnadoedd fydd yn datblygu. Ychwanegwyd y gellid gwahodd Dr Stevens i roi anerchiad i'r gynhadledd ym mis Mawrth ar yr hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol yn y maes twristiaeth.
- Bod trafodaethau'n digwydd rhwng yr Adrannau Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Parc Cenedlaethol i geisio adnabod y ffordd orau o ymateb i'r problemau sy'n codi gyda chartrefi modur. Roedd yna atebion tymor byr, megis cyfathrebu'r neges a gosod arwyddion a chyfyngiadau uchder mewn meysydd parcio, ynghyd ag atebion mwy hir dymor, megis cyflwyno is-ddeddfau a gorfodaeth. Bwriedid rhannu'r materion a chyfrifoldebau gweithredu ar gyfer y tymor nesaf, a byddai'r Adran Amgylchedd yn arwain ar yr elfen yma, gyda mewnbwn gan yr Adran Economi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 3.00 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**